O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 889 (Cy.78)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir yn unol ag adran 58(2) a (4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a roddodd adroddiad yng Ngorffennaf 2008 ar ei adolygiad o ran o'r ffin rhwng sir Powys a bwrdeistref sirol Merthyr Tudful yn ardal Pontsticill. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newid i ran o'r ffin bresennol ac argymell hefyd newid i'r ffin rhwng cymunedau Tal-y-bont ar Wysg a Llangynidr. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiadau.

Mae print o'r map yn dangos y ffiniau wedi'i adneuo yn y mannau a ganlyn, a gellir ei weld yno yn ystod oriau swyddfa arferol - swyddfeydd Cyngor Sir Powys, Llandrindod, Powys, swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful a swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 y cyfeirir atynt yn erthyglau 1 a 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynglŷn ag effaith a gweithredu gorchmynion megis y rhain.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 889(Cy.78)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009

Gwnaed *5 Ebrill 2009*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Ebrill 2009*

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

Gan fod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Gorffennaf 2008 ar adolygiad o ran o'r ffin rhwng Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ynghyd â'r cynigion a luniwyd gan y Comisiwn ar y mater hwnnw;

A bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i'r cynigion hynny heb addasiadau;

A bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) a (4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009.

(2) At unrhyw ddiben a osodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mai 2009.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2009, sef y dyddiad penodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map sydd wedi'i farcio "Map o Orchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009", a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (**1**).

Newidiadau i ardaloedd sirol, bwrdeistref sirol ac ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

3. Mae'r rhan honno o sir Powys sy'n dod o fewn cymuned Tal-y-bont ar Wysg ac a ddangosir gyda chroeslinellau fel ardal "A" ar y map ffiniau—

(a) yn cael ei throsglwyddo i fwrdeistref sirol Merthyr Tudful;

(b) yn ffurfio rhan o gymuned y Faenor; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol y Faenor.

4. Mae'r rhan honno o gymuned Tal-y-bont ar Wysg yn sir Powys a ddangosir gyda chroeslinellau fel ardal "B" ar y map ffiniau—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llangynidr; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llangynidr.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

5 Ebrill 2009

(**1**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).